# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
# 29.05.12

**Yn bresennol**:- **Y Cynghorydd Dewi Owen (Cadeirydd)**

Y Cynghorwyr Anwen J. Davies, Lesley Day, Anne Lloyd Jones, Charles Wyn Jones, Siôn Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas, Mandy Williams-Davies a Huw Edwards (aelod ex officio).

**Aelod o'r Cabinet** : Ioan C. Thomas (Aelod Cabinet - Gofal Cwsmer)

**Hefyd yn bresennol**:- Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilys Phillips (Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol) – (Ar gyfer Eitem 5), Geraint George (Pennaeth Adran Strategol a Gwella), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd) ar gyfer Eitemau 3 a 6) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau**: **Y Cynghorydd Selwyn Griffiths a June Marshall.**

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**Penderfynwyd: Cadarnhau penderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod ar 17 Mai 2012 i ethol y Cynghorydd Dewi Owen yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2012/13.**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2012/13.**

## 3. AMSER CYFARFODYDD

**Ystyriwyd** amser dechrau cyfarfodydd pwyllgor am y flwyddyn.

(a) Adroddodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol y disgwylir derbyn canllawiau gan y llywodraeth ynglŷn ag amser gorau i gynnal cyfarfodydd. Rhagwelir y bydd disgwyl i bob awdurdod ystyried y mater ac y byddai modd cynnal arolwg ymysg yr holl aelodau etholedig i ganfod barn ynglŷn â'r amser gorau a chyfleus i gynnal cyfarfodydd. Nodwyd bod modd edrych ar ddefnyddio fwy ar gyfarpar fideo-gynadledda yn y tair ardal sef Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.

(b) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

1. bod cyfarfodydd gyda'r nos yn fwy cyfleus i aelodau etholedig sy'n gyflogedig ond bod hyn yn groes i ystyriaethau i famau gyda phlant ifanc ac oriau ysgol.
2. mai un anfantais cynnal cyfarfodydd gyda'r nos ydoedd y disgwylir i aelodau fynychu cyfarfodydd lleol yn eu hetholaethau ar yr adegau hynny
3. pwysigrwydd hysbysu aelodau o ddyddiadau mor fuan â phosibl er hwyluso dyddiaduron yr aelodau

(c) Esboniodd y Rheolwr Aelodau Gwasanaethau Democrataidd:

(i) bod modd i aelodau hawlio costau tuag at ofal plant a hefyd bod modd i aelodau cymwys hawlio costau gofal dibynyddion sy'n wael

(ii) y bydd dyddiadau cyfarfodydd yn cael eu bwydo i'r Porth Gwybodaeth ac y byddir yn ceisio rhaglennu cyfarfodydd yn fewnol ar draws y Cyngor i osgoi gwrthdrawiad o gyfarfodydd.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r sylwadau a wnaed uchod.**

**(b) Gofyn i'r Uwch Reolwr Gwasanaethau Comisiynu Corfforaethol drefnu, yn unol â chanllawiau'r llywodraeth, arolwg ymysg yr holl Aelodau etholedig i ganfod barn ynglyn â'r amser gorau a chyfleus i gynnal cyfarfodydd.**

**4. PENODI PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Prif Weithredwr ynglŷn ag enwebu swyddog i'r swydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

(a) Gosododd y Prif Weithredwr gefndir yr adroddiad gan nodi'r angen i'r Cyngor, dan Adran 8 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, enwebu un o'i swyddogion i swydd statudol newydd sef "Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd". Nodwyd ymhellach mai'r Pwyllgor hwn oedd yn gyfrifol am y penodiad ac na ellir penodi'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro na'r Prif Swyddog Cyllid yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

(b) Ymhelaethwyd ar swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac egluro'r rhaniad rhwng y swyddogion fydd yn cefnogi'r Cabinet a'r swyddogion fydd yn cefnogi aelodau mainc gefn, y pwyllgorau craffu a'r pwyllgorau eraill, yn dilyn ail-strwythuro fel bo dyletswyddau cefnogi aelodau yn gyfrifoldeb i'r Pennaeth Strategol a Gwella.

**Penderfynwyd derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad a phenodi'r Pennaeth Strategol a Gwella yn ffurfiol i'r swydd "Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd".**

**5. CYFLWYNIAD – CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

(a) Derbyniwyd cyflwyniad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar waith a chyfrifoldebau'r Pwyllgor hwn o gefnogi holl aelodau'r Cyngor yn eu gwaith.

(b) Rhestrodd y Rheolwr Aelodau - Gwasanaethau Democrataidd y gefnogaeth fydd ar gael i aelodau boed hyn drwy grwpiau gwleidyddol, pwyllgorau craffu, ymchwiliadau,

cynghori, prosesu a thalu cyflogau aelodau, darparu hyfforddiant ynghyd â datblygu a llunio porth gwybodaeth i Aelodau.

(c) Rhoddwyd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau ac fe ymatebodd y swyddogion perthnasol fel a ganlyn:

(i) mai'r Pwyllgorau Craffu fyddai'n dewis pynciau / materion i'w hymchwilio ac mai rôl y Pwyllgor hwn ydoedd sicrhau bod gan aelodau cyffredinol adnoddau digonol i wneud hynny. Yn naturiol fe fyddai'n rhaid gweld sut y byddai rhaglenni yn datblygu gan bwyso a mesur y pynciau o ran blaenoriaethu.

(ii) Sicrhawyd y byddir yn ymchwilio i ddatblygu manylion Aelodau ynghyd a rhifau ffôn cywir a pherthnasol ar y Wefan

(ch) Yng nghyswllt y gefnogaeth a dderbyniwyd gan Aelodau hyd yma a'i disgwyliadau i'r dyfodol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(i) Y byddai gwybodaeth o enwau cyswllt yng ngwahanol Adrannau'r Cyngor yn ddefnyddiol ac y byddai sicrhau llinell gyfathrebu rhwng swyddogion ac Aelodau yn arbennig ar brosiectau yn ymwneud â'u wardiau unigol.

(ii) yr angen i fynd i'r afael yn ddi-oed â chysylltiadau e-bost swyddogol aelodau

(iii) Y byddai'n fuddiol i Aelodau newydd dderbyn cymorth mentor sef Aelod profiadol yn ystod y misoedd cyntaf.

(iv) Mewn ymateb, adroddodd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Comisiynu Corfforaethol y byddir yn cysylltu hefo Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol ynglŷn â'r cais uchod i ganfod os oes ganddynt drefniadau eisoes dan sylw. Os nad oes, sicrhawyd y gellir gwneud trefniadau ar eu rhan.

(v) y byddai'n fuddiol anfon llythyr ar ran Cadeirydd y Pwyllgor hwn i holl Aelodau'r Cyngor i esbonio cylch gorchwyl y Pwyllgor a chyhoeddi ei Aelodaeth fel bo cyd Aelodau yn gallu cyfeirio materion o gonsyrn sydd ganddynt fel bo modd eu datrys gan y Pwyllgor neu mewn ymgynghoriad â'r swyddogion perthnasol.

(vi) mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd y byddai modd ystyried materion cyfansoddiadol perthnasol yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

(vii) O safbwynt cyswllt rhwng y Pwyllgor hwn â'r Cyngor, esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod y cyswllt yn bwysig dros ben ac y byddir yn cyflwyno adroddiadau blynyddol i'r Cyngor llawn ar sut y datblygir y gefnogaeth i Aelodau. Nodwyd ymhellach bod hawl gan y Pwyllgor i wneud argymhellion ar faterion i'w datrys.

(viii) Yng nghyd-destun cyllideb, eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod gwahanol elfennau i'r gyllideb sef bod treuliau a chyflogau yn cael ei osod yn genedlaethol a chefnogaeth staffio, a.y.b. wedi ei sefydlu ar sail targedau arbedion fel rhan o'r toriadau a wyneba'r Cyngor dros y tair blynedd nesaf.

(ix) O safbwynt adnoddau ar gyfer gwaith ymchwil yn deillio o benderfyniadau gan y Pwyllgorau Craffu, nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y byddai'r Pwyllgorau Craffu yn gorfod blaenoriaethu a chytuno ar Raglen Waith. Ar hyn o bryd, rhagwelir y gellir cyflawni un ymchwiliad ar y tro gan bob pwyllgor craffu

(x) Pwysigrwydd y Pwyllgor hwn i fonitro bod adnoddau digonol ar gael i'r Adran i weithredu'n effeithiol.

(d) Adroddodd yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Comisiynu Corfforaethol yr angen i'r Pwyllgor flaenoriaethu materion ar gyfer ei raglen waith gan awgrymu'r materion canlynol fel rhai cychwynnol i'w trafod mis Medi / Rhagfyr / Mawrth:

1. **Porth Gwybodaeth** - adroddiad monitro ar y cynllun peilot o weithrediad y llechi technoleg gwybodaeth.
2. **Cyflogau a thaliadau** - nodwyd bod modd i'r Cyngor llawn benderfynu dyrannu "cyflog uwch" i ddwy swydd arall ond bod angen adolygu pwysau gwaith swyddi gwahanol cyn gwneud hynny.
3. **Rhaglen Hyfforddiant a Datblygu** e.e. rhaglen ddatblygu bersonol i Aelodau unigol
4. **Gwybodaeth** - pwysigrwydd i rannu gwahanol wybodaeth yn effeithiol

**Penderfynwyd cymeradwyo'r materion isod fel rhai i'w rhaglennu, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, ar raglen waith y Pwyllgor hwn:**

**(i) Porth Gwybodaeth**
**(ii) Cyflogau a Thaliadau**
**(iii) Rhaglen Hyfforddiant a Datblygu**
**(iv) Rhaeadru Gwybodaeth**

**CADEIRYDD**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a.m. a daeth i ben am 11.35 a.m.